

## Llys Owain Glyndŵr (Iolo Goch)

Addewais hyd hyn ddwywaith,  
addewid teg, addo taith;  
taled bawb, tâl hyd y bo,  
ei addewid a addawo.  
Pererindawd, ffawd ffyddlawn,  
perwyl mor annwyl, mawr iawn,  
myned, eidduned oddáin,  
lles yw, tua llys Owain;  
yn oddáin yno ydd af,  
nid drwg, yno y trigaf  
i gymryd i'm bywyd barch  
gydag ef o gydgyfarch;  
fo all fy naf, uchaf ach,  
eurben claer, erbyn cleiriach;  
clod bod, cyd boed alusen,  
ddiwarth hwyl, yn dda wrth hen.  
l'w lys ar ddyfrys ydd af,  
o'r deucant odidocaf.  
Llys barwn, lle syberwyd,  
lle daw beirdd aml, lle da byd;  
gwawr Bowys fawr, beues Faig,  
gofuned gwiw ofynaig.

Llyna'r modd a'r llun y mae  
mewn eurgylch dwfr mewn argae:  
(pand da'r llys?) pont ar y llyn,  
ac unporth lle'r ai ganpyn;  
cyplau sydd, gwaith cwplws ynt,  
cwpledig pob cwpl ydynt;  
clochdy Padrig, Ffrengig ffrwyth,  
clostr Westmustr, clostir esmwyth;  
cynglynrhwym pob congl unrhyw,  
cangell aur, cyngan oll yw;  
cynglynion yn fronfron fry,  
dordor megis deardy,  
a phob un fal llun llyngwlm  
sydd yn ei gilydd yn gwlm;  
tai nawplad fold deunawplas,  
tai pren glân mewn top bryn glas;  
ar bedwar piler eres

aae'i lys ef i nef yn nes;  
ar ben pob piler pren praff  
llofft ar dalgrofft adeilgraff,  
a'r pedair llofft o hoffter,  
yn gydgwplws lle cwsg clêr;  
aeth y pedair disgleirlofft,  
nyth lwyth teg iawn, yn wyth loft;  
to teils ar bob tŷ talwg,  
a simnai lle magari'r fwg.  
naw neuadd gyfladd gyflun,  
a naw gwardrob ar bob un,  
siopau glân glwys cynnwys cain,  
siop lawndeg fal Siêp Lundain;  
croes eglwys gylchlwys galchliw,  
capelau â gwydrau gwiw;  
popty llawn popthu i'r llys,  
perllan, gwinllan ger gwenllys;  
melin deg ar ddifreg ddŵr,  
a'i golomendy gloyw maendwr;  
pysgodlyn, cudduglyn cau,  
a fo rhaid i fwrw rhwydau;  
amlaf lle, nid yr ymliw,  
penhwyaid a gwyniaid gwiw,  
a'i dir bwrdd a'i adar byw,  
peunod, crehyrod hoywryw;  
dolydd glân gwyrn a gwair,  
ydau mewn caeau cywair,  
parc cwning ein pŵr cenedl,  
erydr a meirch hydr, mawr chwedl;  
gerllaw'r llys, gorlliwio'r llall,  
y pawr ceirw mewn parc arall;  
ei gaith a wna bob gwaith gwiw,  
cyfreidiau cyfar ydiw,  
dwyn blaendrwyth cwrw Amwythig,  
gwirodau bragodau brig,  
pob llyn, bara gwyn a gwin,  
a'i gig, a'i dân i'w gegin;  
pebyll y beirdd, pawb lle bo,  
pe beunydd, caiff pawb yno;  
tecaf llys bren, pen heb bai,  
o'r deyrnas, nawdd Duw arnai;  
a gwraig orau o'r gwragedd,

gwyn fy myd o'i gwin a'i medd!

Merch eglur llin marchoglyw,

urddol hael anianol yw;

a'i blant a ddeuant bob ddau,

nythaid teg o benaethau.

Anfynych iawn fu yno

weled na chliced na chlo,

na phorthoriaeth ni wnaeth neb,

ni bydd eisiau, budd oseb,

na gwall na newyn, na gwarth,

na syched fyth yn Sycharth.

Gorau Cymro, tro trylew,

piau'r wlad, lin Pywer Lew,

gŵr meingryf, gorau mangre,

a phiau'r llys, hoff yw'r lle.